OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 8

Ceisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru

**Cyfarwyddydau cwmpasu**

**33.**—(1) Caiff person sy'n bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio ofyn i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd cwmpasu.

(2) Rhaid i ofyniad o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) plan sy'n ddigonol i adnabod y tir;

(b) disgrifiad byr o natur a diben y datblygiad, gan gynnwys ei leoliad a'i gapasiti technegol;

(c) ei effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd;

(d) datganiad y gofynnir am gyfarwyddyd mewn perthynas â datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol at ddibenion adran 62D o Ddeddf 1990; ac

(e) y fath wybodaeth arall neu sylwadau eraill y gallai'r person sy'n gwneud y gofyniad ddymuno eu darparu neu eu cyflwyno.

(3) Rhaid i berson sy'n gwneud gofyniad yn unol â pharagraff (1) anfon copi o'r gofyniad hwnnw a'r dogfennau sy'n dod gyda'r gofyniad hwnnw i'r awdurdod cynllunio perthnasol.

(4) Os nad yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr wybodaeth a ddarperir yn unol â pharagraff (1) yn ddigonol ar gyfer gwneud cyfarwyddyd cwmpasu, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r person sy'n gwneud y gofyniad.

(5) Rhaid i'r hysbysiad nodi unrhyw bwyntiau y mae angen gwybodaeth ychwanegol amdanynt.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ofyn i'r awdurdod cynllunio perthnasol ddarparu pa bynnag wybodaeth y gall am unrhyw rai o'r pwyntiau hyn.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ymgynghori â'r ymgynghoreion cyn gwneud cyfarwyddyd cwmpasu mewn ymateb i ofyniad o dan baragraff (1), a

(b) gwneud cyfarwyddyd ac anfon copi at y person sy'n gofyn am y cyfarwyddyd ac i'r awdurdod cynllunio perthnasol, o fewn cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad y ceir y gofyniad hwnnw neu unrhyw gyfnod hwy a all fod yn rhesymol ofynnol.

(8) Cyn gwneud cyfarwyddyd cwmpasu rhaid i Weinidogion Cymru ystyried—

(a) unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y ceisydd ynghylch y datblygiad arfethedig;

(b) nodweddion neilltuol y datblygiad penodol;

(c) nodweddion neilltuol y datblygiad o'r math dan sylw; a

(d) y nodweddion amgylcheddol y mae'r datblygiad yn debygol o effeithio arnynt yn sylweddol.

(9) Nid oes dim yn atal Gweinidogion Cymru, (ar ôl iddynt wneud cyfarwyddyd cwmpasu) rhag ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gofyn am y cyfarwyddyd ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch effeithiau sylweddol tebygol y datblygiad arfaethedig.

(10) Ystyr "Gwybodaeth ychwanegol" ("*additional information*") ym mharagraff (9) yw gwybodaeth mewn cysylltiad ag unrhyw ddatganiad y caniateir ei gyflwyno gan y person hwnnw fel datganiad amgylcheddol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 33 mewn grym ar 16.5.2017, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017, Adran 33.